

## **POLISI IAITH**

*Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar Benaethiaid a'u hysgolion mewn perthynas â gweithredu'r Polisi Iaith.*

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu'n rheolaidd Polisi Iaith yr ysgol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig briodol yn yr ysgol.

## **AMCANION CYFFREDINOL**

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r ysgolion.

Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, mae angen parhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar [meithrin ac yn y blynyddoedd yn arwain at ddiwedd CA1] er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, mae angen strategaeth bendant er mwyn datblygu gafael y disgybl o gartref Cymraeg ar y Saesneg a galluogi'r disgybl o gartref di-Gymraeg i ddatblygu ei afael ar y Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

## **AMCANION PENODOL**

### **YSGOLION CYNRADD**

Yn y Blynyddoedd Cynnar, mae angen gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod disgyblion yn yr ardaloedd Seisnigedig yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl. Yn y cyd-destun hwn, mae angen gweithredu ar gynnwys y dogfennau 'Gosod Sylfeini Dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar' a 'Cynllunio Datblygiad Iaith yn yr ardaloedd Seisnigedig'.

Yn CA1, dylid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd CA1. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn CA2, parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion wneud defnydd o'r Saesneg fel cyfrwng wrth i ddisgyblion symud drwy CA2. Bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol

y disgybl a'r ardal a wasanaethir. Byddai'r trefniant hwn yn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn yr ardaloedd mwy Seisnigedig. Aseir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Canolfan Iaith, neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

## **YSGOLION UWCHRADD**

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Rhaid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir am gyrhaeddiad ieithyddol pob disgybl gan y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol ar gyfer cynllunio ieithyddol bwriadus ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd. Yn ymarferol, bydd angen gweithredu yn y modd a ganlyn.

Yn achos disgyblion sydd â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd angen datblygu ymhellach eu gafaél ar y Gymraeg a gwella sgiliau penodol yn y Saesneg [carfanau A a B], bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, cynllunnir profiadau penodol ar draws y cwricwlwm er mwyn iddynt ddatblygu a gwella'u sgiliau yn y Saesneg. Mewn achosion o'r fath bydd yr amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb yn fras i 70%:30%.

Yn achos dysgwyr sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau yn y Gymraeg [carfan C1] cynllunnir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Mewn achosion o'r fath bydd yr amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg yn 50% o leiaf.

Yn achos lleiafrif y disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg [carfan C2], rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath bydd yr amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg yn 30% o leiaf.

Bydd y drefn a ddisgrifir uchod, o'i gweithredu'n effeithiol mewn ysgol, yn datblygu a chynyddu dwyieithrwydd gweithredol dysgwyr ac yn datblygu dwyieithrwydd disgyblion o gartrefi Cymraeg. Bydd hefyd yn fodd i gynyddu nifer disgyblion sydd yn sefyll arholiadau CA4 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg ym mlynnyddoedd cynnar CA3 yn dysgu'r iaith gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Canolfan Iaith neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

## DARPARU AR GYFER Y GWAHANOL GARFANAU YN YR UWCHRADD

Diffinia'r Polisi Iaith ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o ddwyieithrwydd. Disgwylir i ysgolion uwchradd wneud defnydd o'r carfanau ieithyddol ynghyd â'r ddarpariaeth ieithyddol a awgrymir er mwyn sicrhau datblygiad dwyieithog disgyblion.

| CARFAN    | Diffiniad o'r math o ddisgybl yn ôl ei allu ieithyddol.  | Yr anghenion ieithyddol sydd eu hangen er mwyn datblygu sgiliau dwyieithog y disgybl.   |
|-----------|--|---|
| <b>A</b>  | Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.  | Addysg ddwyieithog ar draws y cwricwlwm er mwyn meithrin, atgyfnerthu ac ymestyn sgiliau yn y ddwy iaith.   |
| <b>B</b>  | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg. | Addysg ddwyieithog gyda'r pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r disgybl i drosgwlyddo i garfan A maes o law.                                      |
| <b>C1</b> | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau   | Rhoi pwyslais ar ymestyn hyfedredd y disgybl yn y tri tharged cyrhaeddiad. Sicrhau y defnyddir cyfleoedd y tu allan i wersi arferol i ddatblygu gfael y disgybl ar y Gymraeg. |
| <b>C2</b> | Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg.                        | Rhoi pwyslais ar waith llafar a gwaith ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg.  |
| <b>CH</b> | Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall.   | Cynllunio gofalus a phwrpasol ar gyfer datblygu'r sgiliau angenrheidiol yn y ddwy iaith.  |

Cynigir yr isod fel canllawiau pellach i'w hystyried ar lefel ysgol unigol.

1. Dylai pob ysgol ddarparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl trwy gynllunio ieithyddol bwriadus.
2. Dylai pob ysgol ystyried y dulliau/cyfuniad o'r dulliau addysgu dwyieithog mwyaf addas a phriodol ar gyfer eu gwahanol sefyllfaoedd. Er mwyn sicrhau fod defnydd priodol yn cael ei wneud o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng, dylid ystyried y canlynol:
  - cyflwyno rhai unedau/modiwlau penodol trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg (rhaid ystyried y cyd-bwysedd priodol);
  - cyflwyno rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg (rhaid ystyried y cyd-bwysedd priodol);
  - cyflwyno geirfa allweddol/taflenni gwaith yn y ddwy iaith (rhaid ystyried a oes angen gwneud hyn ym mhob pwnc nau rai pynciau yn unig);
  - trawsieithu, sef darllen/gwyllo agweddau pynciol mewn un iaith a thrafod neu ysgrifennu yn y llall;
  - defnyddio'r ddwy iaith fel cyfryngau i amrywiol raddau i atgyfnerthu'r naill iaith a'r llall, yn arbennig gyda Charfanau B, C1, C2, CH (rhaid defnyddio'r iaith yn fwriadus a gofalus fel na chymysgir y ddwy iaith yn ormodol ac yn ddiangen).

3. Dylai pob ysgol gynnig darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr (Carfan C1 ac C2), gan sicrhau cyswllt digonol â'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.
4. Dylid annog pob hwyrdyfodwr yn B7 i fynychu cwrs dwys yn y Ganolfan Iaith gynted â phosibl. Dylid atgyfnerthu hyn â darpariaeth yn yr ysgol e.e. cynnig rhai o'r pynciau ymarferol o leiaf, i ddechrau, trwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith, er mwyn sicrhau cynnydd yn eu hyfedredd ieithyddol, fel bod pob un yn symud tuag at Garfan A ar y continuum ieithyddol.

### **MONITRO GWEITHREDIAD Y POLISI**

Bydd Gweithrediad y Polisi yn cael ei fonitro fel rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau.

Cesglir gwybodaeth am weithrediad y Polisi yn yr ysgolion gan ddefnyddio dulliau strwythuredig a sefydlwyd i fonitro gweithgareddau eraill yr awdurdod [e.e. perfformiad mewn arholiadau allanol a phrofion, gwybodaeth am drosglwyddiad CA2 i CA3]. Cynhwysir adran benodol yn yr Adroddiad Blynnyddol ar lwyddiannau'r Polisi yn yr ysgolion.

## CANLLAWIAU A CHYMORTH PELLACH

Yn gymorth gyda'r broses o ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion a datblygu'r Gymraeg, dylid gwneud defnydd o'r dogfennau a gyflwynir gyda Pholisi Iaith Gwynedd, sef 'Y Gymraeg Heddiw' ( casgliad o gystrawennau a ffurfiau cyfoes ) , a 'Gloywi Mynegiant Llafar Disgyblion', a'r adnoddau a baratoir gan Dîm Ymgynghorol CYNNAL ar ran yr awdurdod, gan cynnwys deunydd ar y we a chwricwlwm ar lein.

## DOGFENNAU AC ADNODDAU CYMRAEG / LLYTHRENNEDD CYNNAL

### CYNRADD

| <b>DOGFENNAU CYNRADD :</b>                                      | <b>Disgrifiad bras o'r cynnwys</b>   |
|---|--|
| • <b>Strategaeth Llythrennedd</b>                               | Canllawiau ar gyfer sefydlu Strategaeth Llythrennedd ar draws yr ysgol.  |
| • <b>Cynllun Gwaith Cymraeg + unedau gwaith enghreifftiol</b>   | Cynllun gwaith yn seiliedig ar y Rhaglenni Astudio + 17 o unedau gwaith enghreifftiol ar wahanol themau addas ar gyfer CA1 a CA2 + 9 uned ar gyfer dosbarthiadau oedran cymysg yn CA2. |
| • <b>Gosod Sylfeini Dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar</b>   | Canllawiau iaith ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn yr ardaloedd Seisnigedig.  |
| • <b>Iaith i'w defnyddio yn y ....</b>                          | Arweiniad ar yr iaith i'w defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y blynyddoedd cynnar.  |
| • <b>Cynllunio Datblygiad Iaith yn yr Ardaloedd Seisnigedig</b> | Rhestr o batrymau i'w cyflwyno fesul blwyddyn yn yr ardaloedd Seisnigedig.   |
| • <b>Canllawiau ar gyfer Sefydlu Cyfundrefn Darllen Grŵp</b>    | Canllawiau ymarferol ynglŷn â grwpio, trefnu adnoddau a gweithgareddau ayyb.   |
| • <b>Fideos gwirfoddolwyr darllen</b>                           | Arweiniad i athrawon a gwirfoddolwyr.  |
| • <b>Darllen mewn Grŵp</b>                                      | Taflenni yn gosod canllawiau ar y defnydd o wirfoddolwyr i wrando ar blant yn darllen.   |
| • <b>Perfformiad Bechgyn a Merched</b>                          | Taflenni dwyieithog ar : Dysgu ac Addysgu - Strategaethau Llwr Dosbarth, Gwahaniaethau Iaith Penodol . Cynhwysir pwyntiau trafod a thrafodir ffurfiau ysgrifennu gwahanol.             |
| • <b>Datblygiad Iaith</b>                                       | Dogfen rannwyd i bob ysgol yn cynnwys dogfennau atodol y Polisi Iaith - <b>Gloywi Mynegiant Llafar Disgyblion, Y Gymraeg Heddiw, Trothwyon Iaith.</b>                                  |
| • <b>Cynllunio ar gyfer Cyd-bwysedd Ieithyddol</b>              | Disgrifiadau o wersi enghreifftiol.  |
| • <b>Mynegai i'r Safle Llythrennedd</b>                         | Rhestr o'r hyn sydd ar gael ar y safle ac ymhle i gael gafael arnynt.  |
| <b>Portffolio o waith disgyblion</b>                            | Portffolio o waith disgyblion CA1, CA2 a CA3   |

|  |   |
|--|---|
| <b>ADNODDAU CYNRADD :</b>  |   |
| Ffeiliau <b>TRAFOD TESTUN :</b><br><ul style="list-style-type: none"> <li>• CA1 - 3 - 7 oed</li> <li>• Blwyddyn 3 / 4</li> <li>• Blwyddyn 5 / 6 - ar y we + ffeil</li> <li>• Blwyddyn 3 ardaloedd Seisnigedig - ar y we + ffeil</li> <li>• CA1 a CA2 ( Ffeil o weithgareddau gan athrawon Eifionydd )</li> </ul> | Ffeiliau yn cynnwys gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar lyfrau addas ar gyfer y gwahanol oedrannau - er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol disgyblion - Llafar , Darllen, Ysgrifennu. |
| Llyfrau mawr yn modelu ffurfiau mewn testun :<br><ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Er Enghraifft</b> - Bl. 3 / 4</li> <li>• <b>Er Enghraifft</b> - Bl. 5 / 6</li> </ul>  | Pecyn o ffurfiau ysgrifenedig amrywiol ar gyfer modelu testun.  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pecyn o <b>Sgerbydau 'Sgrifennu</b></li> <li>• <b>Syniadau Sut i Sgwennu</b></li> </ul>   | Fframiau ysgrifennu sy'n cynnig arweiniad gyda ffurfiau rhyddiaith  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llyfryn <b>Sillafu</b></li> </ul>   | Canllawiau i athrawon.  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Tapiau gwrando Cynllun y Porth</b></li> </ul>  | Setiau o dapiau i gyd-fynd a llyfrau darllen Cynllun y Porth i B 3-6.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Llyfrau Darllen Grŵp ( Elfed W. )</b></li> </ul>   | Noddir gan y Cyngor Llyfrau.  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Set o gardiau trafod llyfrau</b></li> </ul>  | Cardiau i hybu trafodaeth ar lyfrau.  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cardiau 'Pa Anifail Ydy O ?'</b></li> </ul>  | Cardiau + lluniau anifeiliaid - dysgu'r patrwm GAN.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>O Lygad y Ffynnon</b></li> </ul>   | Llyfr mawr yn enghreifftio arddulliau mewn nofelau.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Hwiangerddi</b></li> </ul>   | Llyfr mawr o hwiangerddi + lluniau lliwgar a gweithgareddau.  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Testun Siarad</b></li> </ul>   | Llyfryn yn rhoi arweiniad a gweithgareddau llafar ar draws y cwricwlwm.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Chwedlau</b></li> </ul>  | Ffeil o weithgareddau yn seiliedig ar chwedlau Cymraeg a baratowyd gan weithgor o athrawon aar gyfer dysgwyr da.  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gemau Iaith</b></li> </ul>   | Csgliad o gemau iaith a gyflwynwyd mewn cwrs.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Deialogau</b></li> </ul>   | Casgliad o ddeialogau gwreiddiol a baratowyd gan weithgor o athrawon ar gyfer disgyblion yn yr ardaloedd Seisnigedig.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bwrlwm Barddonaieth</b></li> </ul>   | Ffeil o weithgareddau yn seiliedig ar farddonaieth.   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Mireinio'r Meddwl</b></li> </ul>   | Ffeil o weithgareddau i datblygu'r sgiliau. ( <b>yn yr ysgolion yn fuan</b> )   |

#### AR Y WE

|                                      |  |
|--------------------------------------|--|
| <b>Cwricwlwm 2008</b>                | <b>Arweiniad a thafleenni enghreifftiol</b>          |
| <b>Datblygu Sgiliau Siarad</b>       | <b>Gweithgareddau amrywiol i ddatblygu llafaredd</b> |
| <b>Llafar, Darllen ac Ysgrifennu</b> | <b>Gweithgareddau ac ymarferion</b>                  |

**DOGFENNAU AC ADNODDAU CYMRAEG UWCHRADD - CYNNAL**

| <b>Dogfennau ac adnoddau</b>  | <b>Disgrifiad o'r cynnwys</b>  |
|---|--|
| • <b>Strategaeth llythrennedd</b>   | Canllawiau ar gyfer sefydlu Strategaeth Llythrennedd ar draws yr ysgol.  |
| • <b>Arolwg Sillafu a phatrymau iaith</b>   | Taflenni enghreifftiol ar gyfer casglu gwybodaeth am wendidau ieithyddol disgyblion.   |
| • <b>Holiadur Codi Safonau Bechgyn</b>  | Holiadur y medrir ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth er mwyn codi safon gwaith bechgyn.   |
| • <b>Patrymau Iaith Hwyrddyfodiaid</b>  | Rhestr o batrymau ieithyddol ar gyfer hwyrddyfodiaid.  |
| • <b>Trafod Testun CA3</b>  | Gweithgareddau yn seiliedig ar 6 llyfr ar gyfer CA3 - ffeil + ar y we.   |
| • <b>Llyfryn Iaith ( Bodedern )</b><br>( Ysgolion eraill wedi llunio eu llyfryn eu hunain neu addasu hwn. )                   | Llyfryn yn rhoi canllawiau iaith yn y Gymraeg ac ar draws y Cwricwlwm.   |
| • <b>Cardiau trafod pwnc</b>  | Pecyn o gardiau A4 yn cynnwys symbyliadau i gychwyn trafodaeth ar wahanol bynciau addas ar gyfer CA4.  |
| • <b>Cardiau hybu trafodaeth</b>  | Pecyn o gardiau yn cyflwyno dechreuadau brawddegau a.y.y.b. - CA3  |
| • <b>Cardiau ffurfiau rhyddiaith</b>  | Cardiau yn cyflwyno prif nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifenedig.  |
| • <b>Sgerbydau a Matiau Ysgrifennu</b>  | Fframiau a matiau yn rhoi arweiniad ar ffurfiau ysgrifenedig penodol.  |
| • <b>Datblygiad Iaith</b>   | Dogfen yn cynnwys dogfennau atodol y Polisi Iaith .  |
| • <b>Pecyn Adolygu</b>  | Pecyn o daflenni allai fod o gymorth wrth adolygu ar gyfer Profion CA3 ac arholiadau TGAU.   |
| • <b>Pecyn - Pa Anifail Ydy O ?</b>   | Pecyn o gardiau gyda lluniau lliw o anifeiliaid - gêm i ymarfer y patrwm GAN. ( + dysgu enwau anifeiliaid + rhannau'r corff )                |
| • <b>Ffeil Gweithgareddau</b>   | Pecynnau wedi eu paratoi gan bob Adran Gymraeg ; gweithgareddau medrau dysgu a chwricwlwm ar-lein.   |
| • <b>CD – gweithgareddau rhyngweithiol ( TGCh ) a baratowyd gan weithgor o athrawon ac a rannwyd yn ystod cwrs cosnortiw.</b> | Gweithgareddau amrywiol ( ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol ) i ddatblygu sgiliau disgyblion CA3 a CA4 – Cerddi TGAU, gweithgareddau iaith |

**AR Y WE : ar safle CYNNAL ( mwy i ddod )**

|                                      |   |
|--------------------------------------|---|
| <b>Cwricwlwm 2008</b>                | <b>Arweiniad ar gynllunio a thafenni enghreifftiol.</b> |
| <b>Hunan Arfarnu</b>                 | <b>Arweiniad a thafenni enghreifftiol</b>               |
| <b>Llafar, Darllen ac Ysgrifennu</b> | <b>Gweithgareddau ac ymarferion</b>                     |
| <b>Datblygu Sgiliau Siarad</b>       | <b>Gweithgareddau amrywiol i ddatblygu llafaredd.</b>   |

